TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET
CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE

PWNC/ *SUBJECT:*

Newidiadau a gynigir i Bolisi Samplo Bwydydd Cyngor Gwynedd
Propsed changes to Gwynedd Council's Food Sampling Policy

AELOD CABINET/ *CABINET MEMBER*:

Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Rheoleiddio /
Cllr Dafydd Meurig, Regulatory Cabinet Member.

PENDERFYNIAD/ *DECISION*

1.Derbyn ac ymgorffori'r newidiadau a gynigir yn y polisi diwygiedig fel fo Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn dilyn trefn gyfredol ac yn cydymffurfio gyda gofynion y Côd Ymarfer cyfraith Bwyd (Cymru) 2014

1. Accept and include the proposed changes to the amended policy thereby allowing The Public Protection Service to follow a current arrangement and comply with the Food Law Code of Practice (Wales) 2014.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/ *REASONS FOR THE DECISION*

2. Yn unol â'r gofynion sy'n gynwysedig yn y Côd Ymarfer Cyfraith Bwyd (2014) mae'n ofynnol i'r Cyngor (fel Awdurdod Bwyd) baratoi a chyhoeddi polisi samplo bwyd.

3. Pwrpas y Polisi Samplo yw amlinellu sut mae Cyngor Gwynedd yn cwrdd â'u dyletswydd i gynnal ymyraethau samplo bwyd mewn busnesau oddi fewn y Sir.

4. Mae'r Tîm Bwyd yn cymryd samplau bwyd o ystod eang o fusnesau i sicrhau eu bod yn cwrdd â safonau ac yn cynhyrchu / gwerthu bwyd sy'n saff i'w fwyta ac o ansawdd dderbyniol.

5. Mae'r Polisi Samplo sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd yn mynd yn ôl I 2009/10.
Dylai'r polisi hwn fod yn gyfredol er mwyn sicrhau ein bod yn cwrdd â'r gofynion statudol.

6. Nid oes newid sylweddol i gynnwys y polisi a gynigir. Nid ychwaith oes newid cyfeiriad a rhagwelir na fydd angen adnodd ychwanegol i gwrdd ar hyn adroddir. Mae'r newidiadau yn bennaf yn ymwneud a strwythur y ddogfen gyda pheth newid i'r cynnwys ac yn arbennig i gyfeiriadau at ddogfennau perthnasol a chyfraith cyfredol.

7. Drwy dderbyn a chyhoeddi'r polisi diwygiedig bydd y Cyngor yn cwrdd â gofyn statudol.

_____

2. *The Food Law Code of Practice (Wales) 2014 stipulates that the Council(as a food authority) should prepare and publish a Food sampling policy.*

3. The purpose of the policy is to outline how Gwynedd Council intends to comply with its duty to undertake food sampling interventions at businesses within the County.

4. The Food Safety Team take samples from a wide range of businesses to ensure that they meet relevant standards and produce / sell food which is safe to eat and of acceptable

quality.

5. The current food sampling policy dates back to 2009/10. The policy should be current to ensure compliance with current statutory guidance.

6. There are no major changes in the revised policy. Furthermore, no radical change in direction is proposed and it is not envisaged that additional resources will be required to meet the obligations imposed by this document. The changes mainly relate to the document layout but some amendments are also included which mainly relate to relevant guidance and current statutory instruments.

7. By accepting and publishing the revised policy the Council will meet a statutory obligation.

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/*RELEVANT CONSIDERATIONS*

8. Mae Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn gorfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd ar ran Cyngor Gwynedd.

9. Bydd Llywodraeth Cymru yn llywio ymdrechion y Cyngor yn y maes hwn drwy gynnig arweiniad yn y Côd Ymarfer Cyfraith Bwyd a gyhoeddir drwy'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

10. Yn y côd mae'n datgan,

Food Authorities should prepare and publish a food sampling policy and make it available to businesses and consumers. The policy should set out the Food Authorities' general approach to sampling and its approach to specific situations….'

11. Mae disgwyliad felly i'r Cyngor gydymffurfio a'r gofyn hwn.

_____

8. The Public Protection Service enforce food safety legislation on behalf of Gwynedd Council.

9. The Welsh Government direct the Council's efforts in this respect by offering guidance in The Food Law Code of Practice published by the Food Standards Agency.

10. The Code states;

'Food Authorities should prepare and publish a food sampling policy and make it available to businesses and consumers. The policy should set out the Food Authority's general approach to sampling and its approach to specific situations….'

11. It is expected therefore that the Council comply with this requirement.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/*VIEWS OF STATUTORY OFFICERS*

1. Y Prif Weithredwr/ *Chief Executive*:-
Dim i'w ychwanegu/Nothing to add

2. Swyddog Monitro/ *Monitoring Officer*:-
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb / No comments with regards to propriety

3. Prif Swyddog Cyllid/*Chief Finance Officer*:-
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol. / Nothing to add from a financial propriety perspective.

BARN YR AELOD LLEOL/ *VIEW OF LOCAL MEMBER*

Ddim yn fater lleol/Not a Local Matter

LLOFNOD /*SIGNED*



DYDDIAD/ *DATE*

16.03.16

POLISI SAMPLU DIOGELWCH BWYD

Ionawr 2016

POLISI SAMPLU DIOGELWCH BWYD

Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd
Polisi Samplu Bwyd

1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae Asiantaeth Safonau Bwyd (Cymru) (ASB) yn dylanwadu ac yn goruchwylio gwaith gorfodaeth yr Awdurdod Lleol. Diffinnir y berthynas yn y Fframwaith ar Reoliadau Porthiant a Bwydydd a ddiweddarwyd yn 2009/10. Yn y ddogfen Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru), a gyhoeddwyd yn Ebrill 2014, dywed yr ASB y gall gwaith samplu bwyd a wneir gan yr Awdurdod Bwyd gael ei ystyried fel rheoliad diogelwch bwyd swyddogol ble fo'r archwiliad neu'r dadansoddiad yn cael ei gynnal gan labordy swyddogol.

1.2 Mae'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Bwyd baratoi a chyhoeddi polisi samplu bwyd a'i fod ar gael i fusnesau a chwsmeriaid. Lluniwyd y polisi a ganlyn mewn ymgynghoriad gyda Gwasanaeth Microbioleg Iechyd Cyhoeddus Cymru a Dadansoddwr Cyhoeddus Cyngor Gwynedd, sy'n ymgymryd ag archwiliadau a dadansoddiadau bwyd ar ran yr Awdurdod.

1.3 Mae'r polisi yn nodi beth yw dull cyffredinol y Cyngor o samplu bwyd. Mae hefyd yn manylu rhai trefniadau sy'n gymwys i sefyllfaoedd mwy penodol a ddisgrifiwyd yn y ddogfen.

1.4 Gweithredir y ddogfen bolisi yma ac fe gaiff ei chefnogi gan weithdrefn samplu a rhaglen samplu weithgar a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

1.5 Mae'r polisi samplu ar gael ar-lein [www.gwynedd.gov.uk]. Fel arall, mae modd cael copi yn unrhyw un o'n swyddfeydd, ond bydd angen gofyn ymlaen llaw.

2.0 Datganiad Cyffredinol

2.1 Mae Rheoliad (EC) 852/2004 yn datgan y bydd gweithredwyr busnes bwyd sy'n ymgymryd ag unrhyw gam cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd (heblaw am gynhyrchu sylfaenol) pan yn briodol yn mabwysiadau mesurau samplu a dadansoddi fel mesurau hylendid penodol, i gydymffurfio gyda meini prawf microbiolegol i fwydydd. Ehangir ar y gofyniad yma yn rheoliad (EC) 2073 / 2005.

2.2 Mae'r Cyngor (fel awdurdod bwyd) yn cydnabod bod angen i rai busnesau bwyd efallai ymgymryd â gwaith samplu a dadansoddi eu hunain. Er hynny, mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd samplu fel modd i Awdurdodau Bwyd orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd a gwarchod iechyd y cyhoedd. Ymhellach, mae'r Cyngor yn cydnabod fod gweithredu'r polisi drwy raglenni samplu yn rhoi budd a sicrwydd i fusnesau lleol am ansawdd y bwyd maent yn ei gynhyrchu.

2.3 Mae samplu bwyd yn cynorthwyo i gyflawni'r amcanion a nodwyd yng Nghynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd blynyddol y Cyngor a blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol wedi eu dyrannu i'r Uned Diogelwch Bwyd i ymgymryd â gwaith samplu bwyd.

2.4 Bydd rhaglenni samplu bwyd arferol (hylendid a safonau) yn ystyried nifer, math a sgoriau risg busnesau bwyd yn ardal Gwynedd, unrhyw drefniadau 'Awdurdod Sylfaenol' sydd wedi eu sefydlu

sydd gan rhai busnesau efallai yn eu lle, a'r angen i sicrhau bod deddfau bwyd yn cael eu gorfodi yn gytbwys ac yn unol â pholisi gorfodaeth Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd. Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar fwydydd gaiff eu cynhyrchu/gweithgynhyrchu yng Ngwynedd a'r rhai sy'n peri risg mwy i iechyd cwsmeriaid. Ble bynnag bo'n bosib, bydd rhaglen yn cael ei threfnu i weithio ar y cyd gydag unrhyw fentrau samplu lleol neu genedlaethol.

2.5 Bydd yr Awdurdod yn dilyn rhaglen blaenoriaethau blynyddol samplu'r Asiantaeth Safonau Bwyd wrth lunio ei raglen samplu flynyddol, gan ystyried y gronfa samplu flynyddol dyrannwyd i'r Awdurdod am y flwyddyn benodol.

2.6 Gellid cymryd samplau bwyd o fusnesau y tu allan i'r rhaglenni sefydledig mewn;

i) eiddo ble mae, neu y bu pryderon diweddar am hylendid, cwynion blaenorol a digwyddiadau gwenwyn bwyd;

ii) busnesau sy'n cydweithio gyda'r Cyngor gyda'r bwriad o wella safonau.

iii) Lle bydd busnes yn dechrau cynhyrchu llaeth amrwd i'w werthu

iv) Sefydliadau Awdurdodedig fel yr adnabyddir yr angen gan Swyddogion. Mewn safle puro pysgod cregyn bydd samplau yn cael eu cymryd yn ystod bob archwiliad.

v) Bwydydd a gynhyrchir tu allan i'r Undeb Ewropeaidd a fydd yn cael eu mewnforio yn uniongyrchol drwy Wynedd.

2.7 Mae'r samplu pellach sydd wedi ei raglennu yn cynnwys;

vi) pysgod cregyn sydd wedi eu cynaeafu i bobl eu bwyta o wlau sydd wedi eu dosbarthu.

vii) eiddo sy'n mewnforio /allforio bwyd o Wynedd.

2.8 Bydd samplu bwyd yn cael ei ymgymryd yn unol gyda,

a) Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013

b) Gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y Cyngor

c) Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2014.

d) Canllaw Asiantaeth Safonau Bwyd

2.9 Mae'r Cyngor yn cydnabod na ddylai gwaith samplu roi unrhyw faich diangen ar fusnes. Yn y mwyafrif o achosion bydd samplau yn cael eu prynu. Bydd canlyniadau'r archwiliad/dadansoddiad yn cael eu gwneud yn hysbys i berchennog y busnes bwyd heb oedi diangen ynghyd ag unrhyw gyngor/gweithredu dilynol.

2.10 Bydd yr holl samplau bwyd yn cael eu cymryd gan swyddogion awdurdodedig y Cyngor sydd wedi eu hyfforddi yn addas, yn brofiadol ag yn gymwys yn unol â gweithdrefnau dogfennol y Cyngor.

2.11 Bydd canlyniadau'r dadansoddiad sampl bwyd yn cael ei fewn-fwydo i system Goruchwylio Bwyd Asiantaeth Safonau Bwyd y DG.

3.0 Samplu mewn Sefyllfaoedd Penodol

3.1 Samplu Arferol

Bydd samplu arferol yn digwydd er mwyn monitro diogelwch y bwydydd a gynhyrchir, a ddosberthir ac a werthir yng Ngwynedd. Gellir prynu'r holl waith samplu arferol yn ddi-enw, neu gyda chaniatâd perchnogion y busnes bwyd, gan swyddog awdurdodedig. Bydd y samplau bwyd anffurfiol hyn yn cael eu dadansoddi gan y Dadansoddwr Cyhoeddus a benodwyd neu'r Archwiliwr Bwyd yn ôl y drefn.

3.2 Samplu Anffurfiol

Bydd mwyafrif y samplau gaiff eu cymryd i ddibenion microbiolegol yn anffurfiol ac yn rhan o'r rhaglen fonitro/goruchwylio. Bydd samplau o fwyd sy'n destun cwyn gan gwsmer a ddaethpwyd i swyddfeydd y Cyngor, hefyd yn cael eu hystyried yn anffurfiol, fel mae samplau bwyd a gyflwynwyd er barn arbenigwr, adnabod pla a'r rhai a gymerwyd fel tystiolaeth e.e. dyddiadau defnyddio.

3.3 Gwaith Samplu Ffurfiol

Bydd samplau ffurfiol yn cael eu prynu neu yn cael eu cymryd yn unol gyda Chod Ymarfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Canllaw Ymarfer, gan swyddogion awdurdodedig hyfforddedig, cymwys a phrofiadol. Byddant yn cael eu harchwilio neu eu dadansoddi gan yr Archwiliwr Bwyd penodedig neu'r Dadansoddwr Cyhoeddus. Cyflwynir tystysgrif swyddogol i'r Cyngor a bydd copi yn cael ei anfon i'r busnes bwyd fel bo'r angen. Bydd samplau ffurfiol yn cael eu cymryd os derbynnir adroddiad andwyol ar ôl archwilio neu ddadansoddi, ble y gellid cymryd camau gorfodaeth.

3.4 Monitro Proses

Gellid cymryd samplau gan gynhyrchwyr bwydydd, yn ystod y broses gynhyrchu, i sicrhau diogelwch y cynnyrch terfynol ac i asesu effeithiolrwydd rheoliadau pwysig y broses. Hysbysir y cynhyrchwr o ganlyniad unrhyw ddadansoddiad neu archwiliad o samplau.

3.5 Egwyddor y Prif Awdurdod

Bydd samplu yn bennaf yn canolbwyntio ar y busnesau bwyd hynny ble fo gan y Cyngor gyfrifoldeb amdanynt fel yr awdurdod ble mae'r busnes yn deillio ohono. Os yw'r gwaith samplu yn adnabod problem gyda bwyd a gynhyrchwyd o'r tu allan i'r ardal, bydd yr awdurdod perthnasol, prif awdurdod neu'r awdurdod ble mae'r bwyd yn deillio ohono yn cael ei hysbysu a bydd copi o'r dadansoddiad neu'r archwiliad yn cael ei anfon atynt.

3.6 Archwiliadau Arferol

Gall samplu fod yn rhan o archwiliad arferol busnes bwyd.Gall samplu ddigwydd os yw'r swyddog awdurdodedig yn ystod yr archwiliad yn adnabod problem benodol sydd angen archwiliad pellach neu i gael tystiolaeth i gefnogi archwiliad. Gall hefyd ddigwydd yn ystod archwiliad i ddibenion monitro proses.

3.7 Cwynion sy'n Gysylltiedig â Bwyd

Ar ôl derbyn cwyn am fwyd, gellid cyflwyno'r bwyd i'w ddadansoddi, ei archwilio neu i arbenigwyr ei adnabod, os ystyrir fod hyn yn angenrheidiol i archwilio'r gŵyn yn briodol.

3.8 Archwiliadau Afiechydon mewn Bwyd

Gellid cymryd samplau bwyd a'u cyflwyno i'w harchwilio i ddibenion adnabod unrhyw ffynhonnell haint posib a rheoli unrhyw berygl i iechyd y cyhoedd. Mae samplau o'r fath yn debygol o fod yn rhai ffurfiol. Pe byddai digwyddiad o afiechyd gaiff ei gario mewn bwyd yna bydd samplau perthnasol yn cael eu hadnabod mewn ymgynghoriad gyda'r Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy a gyflogir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

3.9 Samplo Statudol

Bydd samplau bwyd yn cael eu cymryd a'u cyflwyno ble bynnag mae gan y cyngor ddyletswydd statudol i wneud hynny. Bydd y gwaith o samplo pysgod cregyn h.y. molysgiaid cregyn deufalf, yn cael ei gynnal mewn ardaloedd masnachol pysgod cregyn, i ddibenion cynnal dosbarthiadau angenrheidiol y Gymuned Ewropeaidd i'r ardaloedd hynny.

3.10 Archwiliadau

Bydd samplau bwyd yn cael eu cymryd a'u cyflwyno fel rhan o archwiliad e.e. mewn ymateb i rybudd perygl bwyd neu i wybodaeth arall a dderbyniwyd am faterion diogelwch bwyd posib. Gall hyn fod yn rhan o 'ddigwyddiad bwyd' sy'n golygu cyd-gysylltu gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

3.11 Rhaglenni ar y Cyd

Mae cymryd rhan mewn rhaglenni samplo wedi eu cydlynu yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn cymryd rhan fel bo'n briodol mewn rhaglenni wedi eu cydlynu gyda'r UE, cenedlaethol, rhanbarthol ac yn lleol. Bydd hyn yn cynnwys prosiect Cydweithio Gwarchod y Cyhoedd Gogledd Cymru.

4.0 Archwilwyr a Dadansoddwyr Bwyd

4.1 Mae'r Cyngor yn defnyddio Gwasanaethau Microbiolegol Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu archwilwyr bwyd (archwiliad microbiolegol) a Eurofins Scientific fel Dadansoddwyr Bwyd.

4.2. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a labordai Eurofins yn cael eu cydnabod fel labordai 'Rheoli Swyddogol' i ddibenion gorfodaeth cyfraith bwyd. Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau fod y labordai a ddefnyddir wedi eu hachredu yn briodol ac yn cydymffurfio gyda Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplo a Chymwysterau) (Cymru) 2013.

4.3 Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau drwy gyswllt gyda'r labordai fod y gwasanaeth a ddarperir yn effeithlon ac yn addas i'r pwrpas ac sy'n adlewyrchu'r polisi yma a rhaglen samplo'r Cyngor.

5.0 Asesiad ac ymateb i ganlyniadau

5.1 Bydd canlyniadau yn cael eu harchwilio gan swyddogion awdurdodedig a'u cymharu i safonau cyfredol fel y diffinnir yn Rheoliad (EC) 2073/2005 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

5.2 Bydd canlyniadau analeiddio samplau bwyd yn cael eu cyfeirio at bob grŵp perthnasol ac yn derbyn ymyrraeth bellach yn unol â gweithdrefnau penodol.

6.0 Cyfuno Canlyniadau

6.1 Mae Cyngor Gwynedd yn aelod o Grŵp Bwyd ac Afiechydon Heintus Gogledd Cymru sydd â chynrychiolwyr y chwe Awdurdod ac iechyd Cyhoeddus Cymru yn eistedd arno.

6.2 Bydd swyddog neu reolwr yn mynychu cyfarfodydd y grŵp yn chwarterol . Bydd hyn yn rhoi cyfle i ledaenu canlyniadau a thrafod dulliau samplo / gwaith labordy a datblygiadau newydd . Mae'r cyfarfodydd hefyd yn cynorthwyo gyda chysoni gwaith Awdurdodau.

6.3 Wrth gasglu , asesu a thrafod canlyniadau mae'r gwrp yn medru sefydlu os oes patrymau yn bodoli a'r angen i hysbysu awdurdodau eraill. Gall y grŵp hefyd benderfynu ar brosiectau samplo ar y cyd.

7.0 <u>Adolygu</u>

7.1 Bydd y Cyngor yn adolygu'r polisi yma yn flynyddol. Ymhellach, bydd y rhaglen samplu yma hefyd yn cael ei hadolygu yn flynyddol a fel bo'r angen i adlewyrchu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

FOOD SAFETY SAMPLING POLICY

JANUARY 2016

FOOD SAFETY SAMPLING POLICY

Gwynedd Council Public Protection Service
Food Sampling Policy

1.0 Introduction

1.1 The Food Standards Agency (Wales) (FSA) influence and oversee Local Authority food safety enforcement work. The relationship is defined in the Framework on Official Feed and Food Controls which was updated in 2009/10. In the document Food Law Code of Practice (Wales) issued in April 2014 the FSA states that food sampling undertaken by a Food Authority may be considered as an official food safety control where the examination or analysis is carried out by an official laboratory.

1.2 The Code of Practice requires Food Authorities to prepare and publish a food sampling policy and make it available to businesses and consumers. The following policy has been produced in consultation with Public Health Wales Microbiology Service and Gwynedd Council's Public Analyst who undertake food examination and analysis on behalf of the Authority.

1.3 The policy sets out the Council's general approach to food sampling. It also details some arrangements which apply to more specific situations described within the document.

1.3 This policy document is implemented and supported by a sampling procedure and an active programme of sampling adopted by the Council.

1.4 The sampling policy is available online [www.gwynedd.gov.uk] . Alternatively, a copy may be made available at any of our offices upon prior request.

2.0 General Statement.

2.1 Regulation (EC) 852/2004 states that food business operators carrying out any stage of production, processing and distribution of food (bar primary production) shall, where appropriate, adopt sampling and analysis as specific hygiene measures, in view of complying with microbiological criteria for foodstuffs. This requirement is expanded upon in Regulation (EC) 2073 /2005.

2.2 The Council (as a food authority) recognises that certain food businesses can be required to undertake their own sampling and analysis. However it also acknowledges the importance of sampling as a tool for Food Authorities in enforcing food safety legislation and protecting public health. The Council further recognises that the implementation of its policy via sampling programmes provides a benefit and assurance to local businesses about the quality of the food they produce.

2.3 Food sampling assists in fulfilling the objectives set out in the Council's annual Food Safety Service Plan and the Council's corporate priorities. The Council is committed to ensuring that the necessary resources are allocated to the Food Safety Unit to undertake food sampling work.

2.4 The routine food sampling programmes (hygiene and standards) will take account of the number, type and risk ratings of food businesses within the Gwynedd area, any established 'Primary

Authority' arrangements which certain businesses may have in place, and the need to ensure that food laws are enforced proportionately and in accordance with the Public Protection Service enforcement policy. The programme will focus on foods which are produced/manufactured within Gwynedd and those posing a greater risk to the consumer's health. Whenever possible the programme will be scheduled to work in collaboration with any national or local sampling initiatives.

2.5 The Authority will follow the Food Standards Agency Sampling annual priorities programme whilst drafting its annual sampling programme, having regard to the annual sampling fund allocated to the Authority for the particular year.

2.6 Food samples from businesses may be taken outside established programmes where;

i) premises where there are, or have been recent hygiene concerns, previous complaints and food poisoning incidents;

ii) businesses working in collaboration with the Council with a view of improving standards.

iii) Raw milk sampling where deemed necessary

iv) Sampling of products from approved establishments is identified as necessary by officers or, where the approved establishment is a shellfish depuration plant, during each inspection.

v) Foods are imported directly into Gwynedd from outside the European Union

2.7 Further programmed sampling include;

vi) shellfish which are harvested for human consumption from classified beds.

vii) premises importing to /exporting food from Gwynedd.

2.8 Food sampling will be undertaken in accordance with,

a) The Food Safety (Sampling and Qualifications) (Wales) Regulations 2013

b) The Council's adopted procedures

c) Food Law Code of Practice (Wales) 2014

d) Food Standards Agency Guidance.
https://www.food.gov.uk/enforcement/monitoring/samplingresources

2.9 The Council recognises that sampling should not place any unnecessary burden on a business. In most cases samples will be purchased .Results of examination/analysis will be made known to the owner of the food without undue delay together with any advice/follow up action.

2.10 All food samples will be taken by authorised officers of the Council being suitably trained, experienced and qualified in accordance with the council's documented procedures.

2.11 The results of food sample analysis will be inputted on the Food Standards Agency UK Food Surveillance System (UKFSS.)

3.0 Sampling in Specific Situations

3.1 Routine Sampling

Routine sampling will take place to monitor the safety of foods manufactured, distributed and retailed in Gwynedd. All routine samples may be purchased anonymously or taken with the consent of the owners of the food by an authorised officer. These informal food samples will be analysed or examined by the appointed Public Analyst or Food Examiner respectively.

3.2 Informal Sampling

The majority of samples taken for microbiological purposes will be informal, and form part of the monitoring/surveillance programme. Samples of food that are the subject of a consumer complaint and are brought to the Council offices are also classed as informal, as are food samples submitted for expert opinion, pest identification, and those taken as evidence in their own right e.g. use by dates.

3.3 Formal Sampling

Formal samples will be purchased or taken in accordance with the Food Standards Agency's Code of Practice and Practice Guidance, by suitably trained, qualified and experienced authorised officers. They will be examined or analysed by the appointed Food Examiner or Public Analyst. An official certificate will be issued to the Council and a copy forwarded to the food business as necessary. Formal samples will be taken where enforcement action may result if an adverse report is received following examination or analysis.

3.4 Process Monitoring

Samples may be taken from manufacturers of foods, during the manufacturing process, for the purpose of ensuring the safety of the end product and for assessing the effectiveness of the critical controls of the process. The manufacturer will be notified of the result of any such sample analysis or examination.

3.5 Primary Authority Principle

Sampling will mainly be focused on those food businesses for which the Council has originating authority responsibility. Where sampling identifies a problem with a food manufactured outside the area, the relevant primary, home or originating authority will be notified and a copy of the certificate of analysis or examination forwarded to them.

3.6 Routine Inspections

Sampling may form part of a routine inspection of a food business. It may take place if, during the inspection, the authorised officer identifies a particular problem that needs further investigation or for obtaining evidence to support investigation. It may also take place during an inspection for process monitoring purposes.

3.7 Food Related Complaints

On receipt of a food complaint, the food may be submitted for analysis, examination, or for expert identification, if this is deemed necessary for the suitable investigation of the complaint.

3.8 Food Borne Disease Investigations

Food samples may be taken and submitted for examination for the purposes of identifying any likely source of infection and controlling any risk to public health. Such samples are likely to be taken formally. In the event of an outbreak of food-borne disease, relevant samples will be identified in consultation with the Consultant in Communicable Disease Control employed by Public Health Wales.

3.9 Statutory Sampling

Food samples will be taken and submitted wherever the council has statutory duty to do so. The sampling of shellfish i.e. bivalve molluscs, in commercial shellfish production areas will be maintained, for the purpose of maintaining the necessary European Community classifications for those areas.

3.10 Investigations

Food samples will be taken and submitted as part of an investigation, e.g. in response to a food hazard warning, or to other intelligence received about potential food safety issues. This may form part of a 'food incident' involving liaison with the Food Standards Agency.

3.11 Joint Programmes

Participation in co-ordinated sampling programmes makes effective use of the Council's resources. The Council will participate as appropriate in EU, national, regional, and locally co-ordinated programmes. This will include the North Wales Public Protection Collaboration project.

4.0 Food Examiners and Food Analysts

4.1 The Council engages the Public Health Wales Microbiological Services provide food examiners (microbiological examination) and Eurofins Scientific as Public Analysts.

4.2. Both the Public Health Wales and Eurofins laboratories are recognised as 'Official Control' laboratories for the purpose of food law enforcement. The Council will seek to ensure that the laboratories used are appropriately accredited and conform with The Food Safety (Sampling and Qualifications) (Wales) Regulations 2013

4.3 The Council will seek to ensure that by liaison with the laboratories that the service provided is efficient and fit for purpose and which reflects this policy and the Council's sampling programme.

5.0 Assessment and Action of Results

5.1 All results will be examined by an authorised officer and compared to the permitted limits as defined in Regulation (EC) 2073/2005, other relevant legislation and guidance.

5.2 The results of food sample analysis will be disseminated to all relevant parties and action upon in accordance with set procedures.

6.0 Co-ordination of Results

6.1 Gwynedd Council is a member of the North Wales food Safety Technical Panel comprising of representatives from the 6 local authorities in North Wales. Representatives from the Public health Wales also attend and contribute to the meetings.

6.2 An officer from the Food Safety team attends the Group's quarterly meetings, which provide an opportunity for the dissemination of essential information regarding the operation of the laboratory, sampling techniques, the latest developments and consistency.

6.3 The group regularly collates information and results on sampling undertaken. This ensures that trends between different local authorities can be identified and significant findings can be brought to the attention of colleagues in neighbouring authorities. The group also undertakes surveys targeted at specific food or premises types.

7.0 <u>Review</u>

7.1 The Council will review this policy on an annual basis. Furthermore, this sampling programme will also be reviewed annually and as required to reflect local and national priorities.